# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 10fed 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles, Arwel Davies, Jean Roberts a Catrin Roberts.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Prosiect Bioamrywiaeth.
Drwy gydweithio gyda Swyddogion Bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol, cytunwyd i baratoi cynllun prosiectau tair mlynedd ar gyfer mudiadau'r ardal

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Gorchymyn (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Meirionnydd) (Cyfyngiad Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023 - trafodwyd os oedd posib newid y cyfyngiad cyflymder yn nol i 30 m.y.a rhwng yr Orsaf Heddlu a Llyn Tegid.
ii) Grantiau Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.
iii) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
iv) Rhybudd cau'r ffordd dros dro ger Bryn Ifan, Arenig ym mis Ionawr 2024.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Doedd dim ceisiadau wedi cael eu cyflwyno.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwilio Cymru – Archwiliad 2022-23.
Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi).
ii) TWE.

c) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd cais gan Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
Ni chyflwynwyd unrhyw faterion i'w trafod.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 14eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….